



THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

THE NATIONAL ACADEMY – CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION
YR ACADEMI GENEOLAETHOL – YN DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEOL

Adolygiad Blynyddol 2018-19



Cynnwys

04 | Ein Strategaeth ar gyfer 2018-2023

05 | Hyrwyddo Ymchwil

08 | Cyfrannu Arbenigedd

10 | Hyrwyddo Dysg a Thrafodaeth

13 | Datblygu'r Gymrodoriaeth

14 | Cymrodyr a Etholwyd yn 2019

17 | Cypolwg ar y Gymrodoriaeth

18 | Llywodraethu

19 | Adolygiad Ariannol

22 | Crynodeb Ariannol

CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
ELUSEN COFRESTREDIG RHIF 1168622
WWW.CYMDEITHASDDYSGEDIG.CYMRU

WEDI'I ARGRAFFU AR BAPUR WEDI'I
AILGYLCHU (100%)

Croeso'r Llywydd

Cymeradwyaf i chi Adolygiad Blynyddol a Chyfrifon y Gymdeithas Ddysgedig ar gyfer 2018/19.

Mae'r Gymdeithas wedi cael blwyddyn dda arall o gynnydd, gan fabwysiadu cynllun strategol uchelgeisiol ar gyfer 2018 i 2023. Mae'r cynllun hwnnw'n amlygu'r amrywiaeth o nodau elusennol y mae ein gwaith yn eu cwmpasu – gyda manteision i ymchwilwyr, llunwyr polisi, ysgolion ac yn wir gymdeithas Cymru drwyddi draw.

Eleni rydym ni wedi ethol 48 o Gymrodyr newydd, sy'n amlygu rhagoriaeth cyfraniadau'r enwebeion i fydd dysg. Rydym ni hefyd wedi dyfarnu Medalau i nifer o ymchwilwyr hynod dalentog, gan gynnwys rhai sy'n dangos potensial mawr ar gam cynnar yn eu gyrfaoedd. Rydym ni wedi hyrwyddo ymchwil ac ysgolheictod, yng Nghymru a thu hwnt, gan barhau'n ymwybodol o'r ansicrwydd a geir yn wyneb Brexit. Mae ein partneriaeth gydag academaïau cenedlaethol eraill,

ar lefel y DU ac o fewn y cenhedloedd datganoledig eraill, wedi cyfoethogi'r gwaith hwn. Unwaith eto eleni, rydym ni wedi cynnig barn arbenigol i'r llywodraeth a deddfwriaethau ar amrywiol faterion, ac yn gynyddol caiff ein barn wrandawriad.

Mae'r Gymdeithas wedi trefnu amrywiaeth eang o weithgareddau ar draws Cymru a thu hwnt, gan gynnwys cyfres o ddarlithoedd ar iechyd a'n Symposiwm Rhyngwladol ar ffyniant cynaliadwy. Yr unig beth sy'n cyfyngu ar ein huchelgais yw'r adnoddau sydd ar gael i ni. Y pwysicaf o'r rhain yw cyfraniad ein Cymrodyr, sy'n cynrychioli arbenigedd ar draws disgyblaethau academaidd niferus a bywyd cyhoeddus. Yn ariannol rydym ni'n sefydlog ond mewn amgylchedd cyfnewidiol ni allwn fforddio bod yn hunanfodlon. Mae manteisio ar botensial y Gymrodoriaeth ac ehangu ein ffrydiau refereniw yn flaenoriaethau parhaus.

I gloi, hoffwn ddiolch i staff y Gymdeithas, yr holl unigolion hynny sydd wedi cyfrannu at ein gwaith mewn ffyrdd gwahanol, a phrifysgolion Cymru am eu cefnogaeth hael.



Syr Emyr Jones Parry
Llywydd

Edrych i'r dyfodol

Cafwyd rhychwant eang o weithgareddau yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn, sy'n dangos diben pellgyrhaeddol y Gymdeithas. Hefyd gosododd sail ar gyfer ein huchelgais at y dyfodol.

Atgyfnerthodd ein cyfres genedlaethol gyntaf o ddigwyddiadau mynediad agored, Dyfodol Ein Hiechyd, ein statws fel cyfrannwr brwd i'r drafodaeth gyhoeddus ar faterion allweddol. Rydym ni nawr yn cynllunio ail gyfres, yn cwmpasu proffil rhyngwladol Cymru.

Ymgynghorom ni'n helaeth gydag ymchwilwyr ar draws Cymru ar ein cynlluniau i sefydlu Academi Gyrfa Gynnar genedlaethol. Siaradom ni hefyd gydag athrawon am ddefnyddio arbenigedd ein Cymrodyr ac enillwyr ein medalau i gefnogi ac ysbrydoli disgyblion.

Edrychaf ymlaen at arwain ein tim ymroddedig o staff i gyflawni'r holl amcanion hyn dros y flwyddyn nesaf.



Martin Pollard
Prif Weithredwr

Ein Strategaeth ar gyfer 2018-2023

Nodau strategol

1. Hyrwyddo ymchwil

Cyflwyno digwyddiadau ansawdd uchel, dathlu rhagoriaeth, ac ysbrydoli a chefnogi ymchwilwyr gyrrfa gynnar

2. Cyfrannu arbenigedd

Cydlynio ymatebion arbenigol i ymgynghoriadau, cynorthwyo gyda llunio polisi ar sail tystiolaeth, a manteisio ar ein harbenigedd i arwain trafodaethau mewn meysydd allweddol

3. Hyrwyddo dysg a thrafodaeth

Cyfathrebu am lwyddiannau ein Cymrodyr, ysbrydoli dysgwyr mewn ysgolion a datblygu trafodaeth gyhoeddus ar faterion pwysig

4. Datblygu'r Gymrodoriaeth

Cynyddu ymwneud Cymrodyr â'n gwaith, ethol amrywiaeth ehangach o Gymrodyr a gweithio gyda sefydliadau sy'n hyrwyddo amrywiaeth

Rydym ni wedi mabwysiadu strategaeth newydd, sy'n gosod uchelgais pum mlynedd ar i'r Gymdeithas fod:

- **Yn fwy amrywiol** – harneisio gwybodaeth gan ystod ehangach o bobl
- **Yn fwy effeithiol** – gwneud defnydd cryfach o arbenigedd a mesur ein heffaith
- **Yn ehangach ein cwmpas** – cyrraedd cynulleidfaoedd newydd gyda'n gweithgareddau

I baratoi'r strategaeth, siaradom ni gyda'n Cymrodyr a thros 60 o randdeiliaid allanol. Dywedon nhw wrthym ni fod y Gymdeithas wedi cael effaith cadarnhaol ers cael ei lansio yn 2010, gyda Chymrodoriaeth gref a llais annibynnol a berchir ym mywyd sifig Cymru. Fodd bynnag, nid yw ein rôl yn glir bob amser; mae angen i ni adrodd stori symlach, fwy difyr am yr hyn rydym yn ei wneud. Cawsom ein hannog hefyd i barhau i amrywio'r Gymrodoriaeth, ac ehangu ein hapêl y tu hwnt i aelodaeth graidd y Gymdeithas.

Mae ein strategaeth newydd yn ymdrin yn uniongyrchol â'r heriau pwysig hyn. Mae hefyd yn cydnabod bod y Gymdeithas yn gweithredu mewn amgylchedd heriol, fel y mae llawer o elusennau a chyrrff addysg uwch. Mae angen i ni barhau i wella ein cefnogaeth i'n cynulleidfaoedd craidd – Cymrodyr, prifysgolion a'r llywodraeth – ac ar yr un pryd ddatblygu gwaith newydd gydag academyddion gyrrfa gynnar, disgyblion ysgol a'r cyhoedd yn ehangach.

Hyrwyddo Ymchwil

Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y Gymdeithas lwyfan i ymchwil addysg uwch – a dathlu'r cyfraniadau mae'n eu gwneud i gymdeithas yng Nghymru a thu hwnt.

Roedd ein **Symposiwm Rhyngwladol yn 2018** yn canolbwyntio ar Foesege Llewyrch Cynaliadwy i Bawb. Bu dros 50 o academyddion, ymarferwyr a llunwyr polisi'n cyfranogi, gan gynnwys gwesteion o Dde Affrica, Awstralia a Sweden.

Dros saith sesiwn panel, trafodwyd yr ystyriaethau a'r cwestiynau moesegol sy'n gorfod cael eu hateb i gyflawni dyfodol cynaliadwy a llewyrchus i bawb. Ewch i'n gwefan am adroddiad llawn ar y Symposiwm, a gynhaliwyd yng Ngholeg Magdalene Caergrawnt.

Sylwadau Cyfranogwyr:

"Rwy'n gwerthfawrogi'n benodol ehangder y profiad o gynifer o rannau o'r byd. Cefais ymdeimlad o Gymru fel 'grym cysylltiol'."

"Roedd y trafodaethau'n ddeallus ac yn cyfoethogi drwy egluro sut i fframio, deall ac ailfeddwl yn wirioneddol am ddatblygu cynaliadwy a llewyrch."

Rydym ni wedi cryfhau ein gwaith ar **Astudiaethau Cymreig** – archwilio, esbonio a deall popeth yn ymwneud â Chymru a'i chysylltiadau â gweddill y byd. Drwy ein rhwydwaith o brifysgolion, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a sefydliadau addysgol a diwylliannol eraill, galwom ni am astudiaethau achos ymchwil yn canolbwyntio ar Gymru. Byddwn yn lansio llyfryn yn amlgyr cyfraniadau hyn yn 2019-20.

Buom yn gweithio hefyd gydag academiâu partner i gynnal dau ddigwyddiad rhyngddisgyblaethol yng Nghymru:

- **Net Zero Wales 2040** – digwyddiad partneriaeth gyda'r Gymdeithas Frenhinol, a ddaeth â chynrychiolwyr o'r byd academaidd, diwydiant a llywodraeth at ei gilydd i ystyried sut y gallai mentrau carbon isel gynorthwyo llesiant cenedlaethau'r dyfodol
- **Gweithdy Adolygu Polisi Plentyndod** – trefnwyd ar y cyd â'r Academi Brydeinig. Casglodd y gweithdy hwn academyddion, ymarferwyr a chynrychiolwyr cymdeithas sifil at ei gilydd i archwilio rôl newidiol y wladwriaeth ym mywydau plant.

Medalau'r Gymdeithas 2019

Cydnabod rhagoriaeth ymchwil



Medal Hugh Owen Am gyfraniadau i ymchwil addysgol

**Enillydd: Yr Athro Enlli Thomas,
Prifysgol Bangor**

Cydnabuwyd yr Athro Thomas am ei harbenigedd ar y Gymraeg, dwyieithrwydd ac astudiaethau mewn addysgu, dysgu a defnyddio'r Gymraeg.

"Mae'n wir fraint ac yn anrhydedd i fod wedi gweithio mewn maes sy'n agos iawn at fy nghalon ers dros 20 mlynedd – caffael y Gymraeg a dwyieithrwydd mewn plant – mae'n wych cael bod yn rhan o'r cyffro cenedlaethol wrth i ni ddatblygu strategaethau ac ymyriadau addysgol ar sail tystiolaeth er mwyn symbylu rhagor i ddefnyddio'r Gymraeg erbyn 2050."



Medal Menelaus Am ragoriaeth mewn peirianeg a thechnoleg

**Enillydd: Yr Athro Roger Owen FREng
FRS FLSW, Prifysgol Abertawe**

Mae medal yr Athro Owen yn cydnabod ei waith arloesol yn efelychu problemau mewn gwyddoniaeth a pheirianeg drwy ddulliau cyfrifiannu. Mae ei ddulliau wedi effeithio ar bron pob agwedd ar beirianeg ac ar sawl maes gwyddonol.

"Oherwydd apêl ryngwladol modelu cyfrifiannu... y Fedal hon yw un o'r unig ddyfarniadau i mi eu derbyn o Gymru, ond o ystyried parch y genedl at wyddoniaeth a thechnoleg, mae'n un sy'n uchel iawn yn fy rhestr o gyfl awniadau."



Medalau Dillwyn - i ymchwilwyr gyrfa gynnar rhagorol

**Categori'r Gwyddorau Cymdeithasol,
Economeg a Busnes**

**Enillwyr: Dr Stuart Fox a Dr Luke
Sloan, Prifysgol Caerdydd**

Dyfarwyd y fedal i Dr Fox am ei waith ar astudio agweddau ac ymddygiad gwleidyddol a sifig – yn enwedig ymgysylltu gwleidyddol gan bobl ifanc yn ystod refferendwm yr UE, Brexit, ac etholiad cyffredinol 2017.

Mae gwaith arobryn Dr Sloan wedi archwilio sut mae modd defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig Twitter, i ddatblygu ymchwil cymdeithasol. Mae ei waith yn cynnwys cwestiynau cymhleth am foesege a methodoleg ymchwil o'r fath.



**Categori Gwyddoniaeth, Technoleg,
Peirianeg, Mathemateg a Meddygaeth**

**Enillwyr: Dr Rebecca Melen, Prifysgol
Caerdydd; Dr Emily Shepard,
Prifysgol Abertawe**

Gwnaeth Dr Melen gyfraniad rhagorol mewn cemeg ym maes catalysis ac ynni. Mae wedi datblygu a defnyddio adweithyddion ar gyfer cataleiddio trawsnewidiadau cemegol, ac wedi gweithio i wneud catalysis yn llai gwenwynig.

Biologydd yw Dr Shepard gydag enw da byd-eang am ei gwaith arloesol ar ehediadau adar ac ymatebion ymddygiadol adar i amgylchedd yr awyr. Mae'n wyddonydd rhyngddisgyblaethol, yn cydweithio gyda pheirianwyr awyrfod, meteorolegwyr, mathemategwyr, ffisiolegwyr a ffisiolegwyr.

"Mae'n anrhydedd ac yn bleser gennyf dderbyn y fedal hon... Nod fy ymchwil yw gwneud gwell rhagfynegiadau o godiad lefel y môr o lenni iâr Ynys Las ac Antarctica, sydd mor bwysig i ddyfodol ein planed. Rwy'n gobeithio ysbrydoli mwyr o wyddonwyr ifanc, yn enwedig merched a menywod, i weithio ym maes gwyddoniaeth a materion amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd."



Medal Frances Hoggan Ar gyfer ymchwilwyr benywaidd rhagorol mewn STEM

**Enillydd: Yr Athro Tavi Murray
FLSW, Prifysgol Abertawe**

Gwyddonydd amgylcheddol sy'n arwain y byd yw'r Athro Murray, yn gweithio ar flaen y gad ym maes rhewlifeg. Bu'n arloesi gyda chymhwysio geoffiseg a thechnegau synhwyro o bell yn y maes.

Cyfrannu Arbenigedd



Drwy gydol y flwyddyn defnyddiom ni wybodaeth gyfunol ein Cymrodoriaeth i gynnig cyngor arbenigol mewn sawl maes polisi pwysig.

Rhoddod bwysau ar y llywodraeth **am gyllid digonol ar gyfer ymchwil ac arloesi** – mater arbennig o bwysig yng nghyd-destun Brexit. Cyflwynom ni ymatebion arbenigol i ymgynghoriadau i bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol a San Steffan ar y mater hwn. Hefyd fe sefydlom ni grŵp yr Academiâu Celtaidd gyda Chymdeithas Frenhinol Caeredin ac Academi Frenhinol Iwerddon, ac ysgrifennom ni ar y cyd at ysgrifenyddion gwladol y DU. Amlygom ni bwysigrwydd cyllid yr Undeb Ewropeaidd a'r angen i drefniadau cyllido barchu'r setliad datganoli.

Gofynnodd y Gweinidog Materion Rhyngwladol a'r Gymraeg i ni gyfrannu at y **Strategaeth Ryngwladol newydd i Gymru**. Gan weithio gyda Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru, cynullom ni gynrychiolwyr o rwydweithiau cymdeithas sifil Cymru ac academyddion gydag arbenigedd mewn meysydd perthnasol. Argymhellom ni y dylai'r Llywodraeth gymryd y cyfle i ddiffinio strategaeth tymor hir gyda gweledigaeth a fyddai'n cryfhau safle Cymru'n rhyngwladol. Byddai ymagwedd gref at gynladwydded a moeseg gartref, yn ogystal ag yn rhyngwladol, yn helpu i sicrhau bod Cymru yn nodedig ac yn ffynnu yn y gymuned fyd-eang.

Sefydlom ni **Bwyllgor Addysg** newydd hefyd. Gan weithio ar draws sefydliadau, mae hwn yn cynnig llwyfan i'n Cymrodyr gyfuno eu harbenigedd mewn ymateb i faterion pwysig mewn addysg uwchradd, bellach ac uwch.

Y cwricwlwm ysgol newydd

Mae ein gwaith ar y cwricwlwm newydd yn enghraifft o'r enw da mae'r Gymdeithas yn ei ddatblygu fel ffynhonnell o gyngor arbenigol annibynnol. Yn ystod haf 2018, comisiynodd Llywodraeth Cymru ni i adrodd ar gynnwys y 'Dimensiwn Cymreig a Safbwyntiau Rhyngwladol'. Mae hon yn thema drawstoriadol, â'r bwriad o wreiddio 'y lleol, Cymru a'r byd ehangach' ar draws pob maes pwnc yn y cwricwlwm. Adroddom ni fod y thema wedi'i chynnwys mewn gwahanol feysydd gyda gwahanol raddau o lwyddiant, a gwnaethom awgrymiadau ar gyfer gwella'r egwyddorion lefel uchel, disgrifiadau manwl a gweithredu.

Nesaf, buom yn gweithio gyda grwpiau oedd yn mireinio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn y cwricwlwm – gan gynnig cyngor pwnc arbenigol a'u helpu i fireinio geiriad y Dimensiwn Cymreig a Safbwyntiau Rhyngwladol. Yna ysgrifennom ni ail adroddiad i Lywodraeth Cymru, yn edrych ar sut roedd ein hargymhellion cychwynnol yn cael eu rhoi ar waith.

Yn 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru ni i archwilio'r adnoddau addysgu y gellid eu defnyddio i gyflwyno'r Dimensiwn Cymreig a Safbwyntiau Rhyngwladol ar draws y cwricwlwm. Roedd ein hymchwil yn dangos bod dros 3,200 o adnoddau'n bodoli, ond ei bod yn ymddangos nad oeddent yn cael eu defnyddio'n ddigonol. Mae angen mwy o arweiniad ar athrawon i archwilio naratifau amrywiol Cymru, ac mae angen curadu'r adnoddau sy'n bodoli'n dda ar gyfer sicrhau hyn.

Mae ein briffiadau ar y cwricwlwm wedi'u defnyddio gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol a chyfeiriwyd atynt yng nghanllawiau statudol drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwricwlwm. Rydym ni'n parhau i ddarparu cyngor arbenigol yn y maes hwn – enghraifft gref o'r ffordd y gall y Gymdeithas ddefnyddio ei harbenigedd cyfunol i gael effaith cadarnhaol ar bolisi.



Hyrwyddo Dysg a Thrafodaeth

Mae'r Gymdeithas yn ymrwmo i dynnu sylw pobl y tu hwnt i'r byd academaidd at syniadau arloesol – ac ysbrydoli eraill i gyflawni eu potensial.

Cefnogom ni bum darlith gyhoeddus er cof am ffigurau pwysig ag iddynt gyswllt â Chymru:

- Traddodwyd **Darlith Nodedig David Olive** am y tro cyntaf gan yr Athro Robert Dijkgraaf ar bwnc "Quantum Geometry and the Fate of Space and Time" (gyda Phrifysgol Abertawe)
- Traddododd yr Athro Mererid Hopwood FLSW **Ddarlith Edward Lhuyd** ar gerddi Waldo Williams (gyda Choleg Cenedlaethol Cymru)
- Traddododd yr Athro yr Arglwydd Kumar Bhattacharyya **Ddarlith Zienkiewicz**, â'r teitl "The Mobility Revolution – How innovation in automotive energy systems, intelligent vehicles and service customization will transform how we travel" (gyda Phrifysgol Abertawe)
- Yr Arglwydd Robert Mair draddododd **Ddarlith Goffa Menelaus** gan ganolbwyntio ar "Smart Civil Engineering Infrastructure and Construction" (gydag Ymddiriedolaeth Addysgol Sefydliad Peirianwyr De Cymru)
- Traddododd yr Athro Nancy Edwards FLSW **Ddarlith J E Lloyd** ar "Time and Memory in Early Medieval Wales" (gyda Phrifysgol Bangor)

Cefnogom ni nifer o weithgareddau ymgysylltu â gwyddoniaeth drwy gynllun grantiau bach y Gymdeithas. Llwyddodd un o'r rhain, Gŵyl Wyddoniaeth Caerdydd, i:

- Ymgysylltu'n uniongyrchol â 9,500 o bobl mewn 34 o ddigwyddiadau ar draws 16 lleoliad
- Cyrraedd dros 100,000 o bobl ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cynnwys gwirfoddolwyr, a gyfrannodd dros 1,000 o oriau o'u hamser

Roedd darlithoedd cyhoeddus eraill a gefnogwyd gan y Gymdeithas yn cynnwys pynciau mor amrywiol ag ysbrydion mewn llenyddiaeth Gymraeg, dramâu Samuel Beckett mewn cyfieithiadau Cymraeg, gweithgynhyrchu cyfansoddion yn gyflym, bywyd Amy Dillwyn (un o'r diwydianwyr benywaidd cyntaf yn y byd), dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yng Nghymru'r oesoedd canol, a newid yn lefelau'r môr ac ymddygiad dynol yn y cyfnod Palaeolithig.

Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Learned Society of Wales

Our Future Health Dyfodol Ein Hiechyd

The Society's lecture series for 2019
Cyfres darlithoedd y Gymdeithas yn 2019



Yn 2019 cynhaliwyd cyfres gyntaf y Gymdeithas o ddigwyddiadau cenedlaethol, ar ffurf saith sgwrs gyhoeddus ar iechyd a ysbrydolwyd gan 70ain pen-blwydd y GIG.

Lansiwyd y gyfres yng Nghaerdydd gyda darlith gan Syr Leszek Borysiewicz: **The NHS – A Success, But Where Next?** Roedd yn ystyried y pwysau ar y gwasanaeth iechyd, yr angen am ymagweddau ataliol ac arloesi technolegol i drawsnewid gofal iechyd.

Yng Nghaerfyrddin, bu'r Athro Syr Andy Haines yn trafod **The Future of Health and Health Care in a Changing Climate**. Mae datblygiadau dynol wedi gwneud cynnydd sylweddol, ond hynny ar draul systemau naturiol. Roedd Syr Andy'n ystyried sut mae heriau byd-eang fel newid yn yr hinsawdd bellach yn bygwth ein hiechyd.

Tynnodd yr Athro Julian Hopkin a'r Athro Keith Lloyd sylw at lwyddiant cenedlaethol – hanes **Ysgol Meddygaeth newydd Abertawe** a'i datblygiad yn erbyn cefndir o ddatganioli yng Nghymru. Buon nhw'n trafod arloesi yn yr ysgol a'i chyfraniadau at iechyd a lles.

Cynhaliwyd y bedwaredd sgwrs, **'Don't Die of Ignorance': the impact of health promotion in the context of HIV**, yn Wrecsam. Bu Dr Olwen Williams yn trafod sut mae'r GIG wedi defnyddio negeseuon i hyrwyddo ac atal ym maes iechyd – yn enwedig atal lledaeniad HIV.



Ym Mangor, cyflwynodd yr Athro Rhiannon Tudor Edwards **A Health Economist's Perspective on the Next 70 Years**. Ar ôl gweithio yn y maes ers 25 mlynedd, eglurodd yr Athro Edwards sut y gall Cymru fuddsoddi'n effeithiol mewn gofal iechyd.

Bu'r Athro Ilorra Finlay yn ystyried pwnc **Dying In Today's World**. Edrychodd ar sut rydym ni fel cymdeithas yn ymdopi gyda marw, a'r newidiadau cyfreithiol dros y blynyddoedd diwethaf sy'n grymuso penderfyniadau. Edrychodd hefyd ar y cwestiynau anodd mae cleifion yn eu hwynebu ar ddiwedd eu hoed.



Yr Athro Helen Stokes-Lampard draddododd y seithfed ddarlith, gan ofyn **Is Free Universal Health Coverage Sustainable?** Nododd yr heriau sy'n wynebu meddygon teulu, edrychodd ar y modelau gofal iechyd amgen o wledydd eraill, ac ystyriodd y duedd gynyddol i bersonoli gofal.

Dyfodol ein Hiechyd – Sgôr cynulleidfa oedd



Ansawdd cyffredinol y digwyddiadau:





Ansawdd y sesiwn holi ac ateb:



Hygyrchedd y deunydd pwnc:



Trefniadaeth y digwyddiadau:



Datblygu'r Gymrodoriaeth

Y Gymrodoriaeth yw craidd gwaith y Gymdeithas. Mae ein Cymrodryr yn cynrychioli pob cangen o ddysg academiaidd, yn ogystal â'r gwasanaethau cyhoeddus, diwydiant a phroffesiynau eraill. Ym mhob achos maent wedi cyflawni rhagoriaeth ac mae eu gwaith wedi cael effaith rhagorol ar ddysg yng Nghymru neu'n ehangach. Mae ein proses enwebu'n drylwyr ac yn cynnwys sawl cam craffu gan ein Cymrodryr.

Yn 2018-19, atgyfnerthwyd ein hymrwymiad i amrywio'r Gymrodoriaeth. Croesawom ni enwebiadau o bob maes dysg – boed llwyddiannau'r unigolion mewn ymchwil ac ysgolheictod, arloesi, arweinyddiaeth sefydliadol neu

ymgysylltu â'r gymuned ehangach. Hefyd fe'i gwnaethom yn haws i enwebeion ein hysbysu am amgylchiadau unigol a allai fod wedi effeithio ar eu gyrfa; ac am y tro cyntaf, cynigiodd ein Llywydd a'n Hyslywyddion adborth uniongyrchol i'r rhai a fu'n aflwyddiannus.

Ar ddiwedd y broses graffu, etholwyd cyfanswm o 47 o Gymrodryr newydd – ac un Cymrawd er Anrhydedd. Rhestrir eu henwau yn y tudalennau a ganlyn.

Yn ystod y flwyddyn, buom hefyd yn datblygu cynlluniau ar gyfer Academi Gyrfya Gynnar. Bydd hon yn cefnogi datblygiad proffesiynol ymchwilwyr nad ydynt eto'n barod i ymuno â'r Gymrodoriaeth, i'w hannog a chefnogi eu cyfraniadau i fydd dysg. Byddwn yn peilota gweithgareddau'r Academi yn 2019-20.



**Yr Athro Syr Stephen O'Rahilly
HonFLSW
Athro Biocemeg Glinigol a
Meddygaeth, Prifysgol Caergrawnt**

Mae'n bleser gennym groesawu'r Athro Sir Stephen O'Rahilly yn Gymrawd er Anrhydedd. Mae'n feddyg ac yn wyddonydd, ac wedi cynnal astudiaethau

arloesol mewn geneteg, metabolaeth ddynol ac ymwrthedd inswlin – gwaith sydd wedi cyfrannu'n enfawr i'n dealltwriaeth o ordewdra. Mae ei gyflawniadau wedi'u cydnabod gyda gwobrau niferus, gan gynnwys gwobrau Rolf Luft, Feldberg ac InBev-Baillet Latour. Fe'i hurddwyd yn farchog yn 2013 am wasanaethau i ymchwil meddygol.

Cymrodyr a Etholwyd yn 2019



• **Yr Athro Gert Aarts FLSW**
Athro Ffiseg, Prifysgol Abertawe

• **Yr Athro Peter Atkinson MBA FRGS FRSS FRSPSoc FLSW**

Deon y Gyfadran Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Prifysgol Lancaster

• **Yr Athro Arnold Beckmann FLSW**

Athro Cyfrifiadureg a Phennaeth Adran Cyfrifiadureg, Prifysgol Abertawe

• **Yr Athro Davide Bonifazi FLSW**

Athro Cemeg Uwchfoleciwlaidd Organig, Prifysgol Caerdydd



• **Y Fonesig Hilary Boulding DBE FLSW**
Llywydd Coleg y Drindod, Prifysgol Rhydychen

• **Dr Mererid Puw Davies FLSW**

Pennaeth yr Adran Almaeneg, Coleg Prifysgol Llundain



• **Yr Athro Michael Davies FICE FGS FEngNZ FRSE FLSW**
Athro Ymchwil, Prifysgol Sussex

• **Dr Russell Davies FLSW**

Hanesydd ac Awdur, Ysgolhaig Annibynol

• **Yr Athro Samuel Evans FICE MIMMM FLSW**

Pennaeth yr Ysgol Peirianeg, Prifysgol Caerdydd

• **Yr Athro Stephen Evans FLSW**

Cyfarwyddwr Ymchwil, Athrofa Gweithgynhyrchu, Adran Peirianeg, Prifysgol Caergrawnt

• **Yr Athro Hywel Francis FRHistS FLSW**

Athro Emeritws ac Ymgynghorydd Strategol ar Archifau, Polisi Rhanbarthol ac Ehangu Mynediad, Prifysgol Abertawe

• **Yr Athro Sophie Gilliat-Ray FLSW**

Athro Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddol a Cyfarwyddwr, Chyfarwyddwr Canolfan Astudio Islam yn y DU, Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd, Prifysgol Caerdydd



• **Yr Athro Alun Guwy FLSW**

Athro Ynni a'r Amgylchedd a Phennaeth Canolfan Ymchwil yr Amgylchedd Cynaliadwy, Prifysgol De Cymru

• **Dr Robin Gwyndaf FSA FLSW**

Cymrawd Ymchwil Er Anrhydedd, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

• **Yr Athro Peter Halligan DSc FBPS FPS FMedSci FRSB FLSW**

Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru, Llywodraeth Cymru

• **Dr Stanley Hughes FLSW**

Wedi ymddeol, cyn Gydyraith Ymchwil Er Anrhydedd yng Nghanolfan Ymchwil Grawn a Hadau Oel Easter, Prifysgol Cymru

• **Yr Athro Matthew Jarvis FLSW**

Athro yng Nghyfadrannau y Dyniaethau a'r Celfyddydau Perfformio a Chymrawd Anthony Dyson mewn Barddoniaeth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; Cymrawd Athrawol, Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, Prifysgol Aberystwyth

• **Yr Athro Ann John FLSW**

Athro Iechyd Cyhoeddus a Seiciatreg; Pennaeth Adran, Ysgol Meddygaeth Abertawe, Prifysgol Abertawe

• **Dr Hywel Ceri Jones FLSW**

Wedi ymddeol: yn flaenorol, Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Cyflogaeth, Polisi Cymdeithasol a Chysylltiadau Diwydiannol

• **Yr Athro Simon Jones FRSB FLSW**

Deon Ymchwil ac Athro Bioleg Llid, Prifysgol Caerdydd



• **Yr Athro Venkateswarlu Kanamarlapudi FRSB FRSC FABAP FAPAS FLSW**

Athro Bioleg Celloedd Molecwlar a Ffarmacoleg yn Ysgol Meddygaeth Abertawe, Prifysgol Abertawe

• **Ms Helgard Krause FLSW**

Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Llyfrau Cymru

• **Yr Athro Hilary Lappin-Scott OBE FLSW**

Yn flaenorol: Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe

• **Yr Athro Malcolm Mason OBE MD FRCR FRCP FRSB FLSW**

Athro Astudiaethau Canser, Prifysgol Caerdydd

• **Yr Athro Paul Meredith FLSW**

Cadair Ymchwil, Athro Ffiseg, Prifysgol Abertawe

• **Yr Athro Peter Midmore FRSA FLSW**

Athro Economeg, Prifysgol Aberystwyth

• **Yr Athro Paul Milbourne FAcSS FRGS FLSW**

Athro Daearyddiaeth a Phennaeth yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio, Prifysgol Caerdydd

• **Yr Athro Hywel Morgan FInstP FRSC FIET FLSW**

Athro Bioelectroneg, Prifysgol Southampton

• **Yr Athro Bernhard Moser FLSW**

Athro, Cadair mewn Haint ac Imiwneidd, Prifysgol Caerdydd

• **Dr Helen Ougham FLSW**

Wedi ymddeol: Darllenwydd Emerita yn y Sefydliad Astudiaethau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth

• **Yr Athro Stuart Palmer DSc FInstP FREng FLSW**

Cadeirydd Cyngor Prifysgol Caerdydd; Cyfarwyddwr Ymddiriedolwr Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion, Prifysgol Caerdydd

• **Yr Athro Ann Parry Owen**

Cymrawd Ymchwil ac Arweinydd Prosiect, Canolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru



• **Yr Athro Julian Preece FLSW**

Athro Almaeneg, Prifysgol Abertawe

• **Yr Athro Philip Prewett CPhys FInstP FRSA FLSW**

Athro Emeritws mewn Nanotechnoleg, Prifysgol Birmingham; Prif Weithredwr Oxford Scientific Consultants Ltd; Prif Weithredwr Oxford MicroMedical Ltd



• **Yr Athro Nigel Rapport**
FRSE FRSA FLSW
 Athro Astudiaethau Anthropolegol ac
 Athronyddol, Prifysgol St Andrews

• **Dr Hugh Rawlings CB FLSW**
 Cyfarwyddwr Materion Cyfansoddiadol
 a Chysylltiadau Rhynglywodraethol,
 Llywodraeth Cymru

• **Yr Athro Gareth Roberts FRS FLSW**
 Athro Ystadegau, Prifysgol Warwick

• **Mrs Sally Roberts Jones FLSW**
 Wedi ymddeol: yn flaenorol Cymrawd
 Ysgrifennu'r Gronfa Lenyddol
 Frenhinol, Prifysgol Abertawe

• **Yr Athro Phillip Schofield**
FRHistS FASSc FLSW
 Athro Hanes Canoloesol a Phennaeth
 yr Adran Hanes a Hanes Cymru, Prifysgol
 Aberystwyth



• **Yr Athro Patricia Skinner**
FRHistS FLSW
 Cadair Bersonol mewn Hanes,
 Prifysgol Abertawe

• **Yr Athro Y Fonesig Elan Closs Stephens**
DBE FRSA FIWA FLSW
 Cyfarwyddwr Anweithredol y BBC ac Aelod
 dros Gymru, Bwrdd y BBC

• **Yr Athro Mark Thomas FRSC FLSW**
 Athro Gwyddor Carbon,
 Prifysgol Newcastle

• **Dr Johanna Waters FLSW**
 Darlithydd mewn Daearyddiaeth Ddynol
 ac Astudiaethau Ymfudo, Coleg
 Prifysgol Llundain

• **Yr Athro Ian Weeks DSc**
CChem FRSC FRCPATH FLSW
 Deon Arloesi Clinigol,
 Prifysgol Caerdydd




• **Yr Athro Susan Wong FRCP FLSW**
 Athro Diabetes Arbrofol a Metabolaeth;
 Meddyg Ymgynghorol Er Anrhydedd
 mewn Diabetes, Prifysgol Caerdydd

• **Yr Athro Stuart Woodhead**
FRCPATH MRCPATH FLSW
 Cyfarwyddwr, Invitron Limited


• **Yr Athro David Wyn Jones FLSW**
 Athro Cerddoleg, Prifysgol Caerdydd

Cipolwg ar y Gymrodoriaeth


Y gyfran o Fenywod yn y Gymrodoriaeth





Cymrodryr y Celfyddydau, Dyniaethau
Gwyddorau Cymdeithasol a
Gwasanaeth Cyhoeddus



Cymrodryr STEM



Erbyn hyn menywod yw 21% o Gymrodoriaeth y Gymdeithas. Mae'r gyfran o fenywod a etholir yn Gymrodryr newydd (28%) yn parhau i fod yn uwch na'r ffigur am athrawon benywaidd ym mhrifysgolion Cymru (24%).



Llywodraethu

Ymgorfforwyd y Gymdeithas yn Elusen Siarter Brenhinol yn 2015 (Rhif Elusen Cofrestredig: 1168622).

Ein ddogfennau llywodraethu cyfredol yw ein Siarther Brenhinol a'i hisddeddfau. Y rhain, ynghyd â Rheoliadau'r Gymdeithas yw offerynnau llywodraethu'r Gymdeithas ers mis Medi 2015.

Swyddogion

Llywydd

Syr Emyr Jones Parry
GCMG FInstP FLSW

Is-Lywyddion

- Yr Athro Michael Charlton FInstP FLSW (Gwyddoniaeth, Technoleg a Meddygaeth)
- Yr Athro David Boucher FRHistS FAcSS FLSW (Y Celfyddydau, Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol)

Trysorydd

- Yr Athro Keith Smith
FRSC FLSW

Ysgrifennydd Cyffredinol

- Yr Athro K Alan Shore
FInstP FLSW

Cyngor y Gymdeithas

Mae'r Siarter yn darparu mai'r Cyngor yw corff llywodraethu'r Gymdeithas; mae aelodau'r Cyngor yn gwasanaethu fel Ymddiriedolwyr Elusen at ddibenion cyfraith elusennau.

Aelodau'r Cyngor

Yn ogystal â Swyddogion, y Cymrodyr canlynol yw Cyngor y Gymdeithas:

- Yr Athro Sally Davies (ers Mai 2019)
- Yr Athro Sioned Davies
- Yr Athro Nancy Edwards (hyd Mai 2019)
- Yr Athro David Evans
- Yr Athro Helen Fulton
- Yr Athro Ieuan Hughes
- Yr Athro Christine James (hyd Mai 2019)
- Yr Athro John Jones
- Yr Athro Densil Morgan
- Yr Athro John Morgan
- Yr Athro Iwan Morus (ers Mai 2019)
- Yr Athro Tim Phillips
- Yr Athro Hywel Thomas
- Yr Athro Terry Threadgold
- Dr Lynn Williams

Noddwr Brenhinol

O fis Mehefin 2019, derbyniodd Ei Uchelder Brenhinol, Tywysog Cymru, yn raslon wahoddiad y Gymdeithas i barhau'n Noddwr Brenhinol am gyfnod arall o bum mlynedd.

Adolygiad Ariannol


Er mwyn cydnabod pwysigrwydd strategol cynyddu'r amrywiaeth o ffrydiau cyllido, a'r angen i gynnal ein hól troed o weithgareddau a chynrychiolaeth ar draws Cymru, rydym ni wedi dechrau sicrhau ffynonellau ychwanegol o incwm. Bydd y rhain yn cynnig sicrwydd ariannol tymor hir ac yn ein galluogi i ddatblygu ac ehangu rhaglen y Gymdeithas dros y blynyddoedd nesaf.

Cyflawnodd y Gymdeithas warged o £15,681 yn ystod y flwyddyn, oedd yn cynnwys gwarged anghyfyngedig o £16,656 a diffyg cyfyngedig o £975. Incwm y Gymdeithas oedd £320,511 a'i gwariant oedd £307,078. Roedd y canlyniad hwn yn arbennig o gadarnhaol o ystyried lefel is yr incwm craidd a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn. Mae'r fantolen yn dangos ein bod wedi dwyn ymlaen gyfanswm o £394,339 ar ddiwedd y cyfnod, yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig o £385,246 a chronfeydd cyfyngedig o £9,093.

Incwm


Fel mewn blynyddoedd blaenorol, daw mwyafrif mawr o incwm craidd y Gymdeithas drwy grantiau hael gan brifysgolion Cymru (cyfanswm o £170,800), yn ogystal â ffioedd derbyn a thanysgrifiadau gan ein Cymrodyr (£57,670). Mae Cymorth Rhodd sy'n daladwy ar ffioedd aelodaeth yn dod ag incwm ychwanegol pwysig (£5,686). Mae natur anghyfyngedig yr incwm hwn yn cefnogi annibyniaeth y Gymdeithas ac yn ei galluogi i gyflenwi ei gweithgareddau'n hyblyg, yn ôl anghenion a nodwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i ni, gan gynnwys gofod swyddfa, cymorth gweinyddol a gwasanaethau TG. Gwerth cyfraniadau mewn da o'r fath oedd £35,588.



Gwariant

Categori gwariant mwyaf y Gymdeithas oedd gweithgareddau, sy'n cynnwys darlithoedd, gweithdai, a datblygu'r Gymrodoriaeth (£201,440). Meysydd gwaith allweddol eraill yn ystod y flwyddyn oedd cyhoeddiadau (£39,108) a datblygu polisi (£44,009). Mae dadansoddiad pellach o'r gwariant yn dangos, yn debyg i elusennau eraill o'r un maint â ni, mai'r gost unigol fwyaf i'r elusen – a gynhwysir yn yr holl feysydd uchod – oedd staffio (£184,675 o gyfanswm gwariant o £307,078).



Cronfeydd wrth Gefn

Gan ddilyn yr arfer a fabwysiadwyd gan elusennau eraill, polisi'r Gymdeithas ar gronfeydd wrth gefn yw sicrhau ei bod yn cadw o leiaf yr hyn sy'n cyfateb i gost chwe mis o gyflogau staff wrth gefn bob amser. Mae cronfeydd wrth gefn rhydd yr elusen ar 31 Gorffennaf yn £379,320 (2018: £367,137).

Datblygiadau'r dyfodol

Mae lefelau cyllido presennol yn galluogi'r Gymdeithas i weithredu ar lefel ddiroddres ond ystyrlon, gydag amrywiaeth ei gweithgareddau'n tyfu'n raddol dros amser. Bydd y graddau y gellir datblygu gweithgareddau ymhellach dros y blynyddoedd nesaf yn dibynnu i raddau helaeth ar y lefel o gyllid ychwanegol y bydd y Gymdeithas yn gallu ei sicrhau, y tu hwnt i'r cronfeydd hynny sydd eisoes ar gael.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen amrywio ffynonellau incwm y Gymdeithas. Mae ffynonellau ychwanegol o incwm yn cael eu harchwilio i alluogi'r Gymdeithas i ddatblygu ei rhaglen dros y pum mlynedd nesaf. Yn 2018/19 datblygodd a mabwysiodd y Gymdeithas strategaeth codi arian sy'n amlygu potensial cefnogaeth gan ymddiriedolaethau, sefydliadau, cyllid cyhoeddus a rhoddion preifat.

Archwiliwyd datganiadau ariannol llawn y Gymdeithas yn annibynnol. I gael rhagor o fanylion a gweld y cyfrifon yn llawn, ewch i www.cymdeithasddysgedig.cymru

“Diolch am bopeth rydych chi'n ei wneud i'n helpu ni i ehangu ffiniau gwybodaeth yma yng Nghymru, i wneud yn siŵr fod ymchwil yn parhau i lywio ein cymdeithas, a hefyd am y pethau mae'r Gymdeithas yn eu gwneud i ddod â'r gwaith hwnnw ynghyd; ei ddatlu; a gwneud yn siŵr ei fod yn ysbrydoliaeth i bobl eraill.”

Mark Drakeford AC,
Prif Weinidog Cymru,
yn siarad yng Nghyfarfod Cyffredinol
Blynyddol 2019 y Gymdeithas

Financial Summary Crynodeb Ariannol

Statement of Financial Activities for the year ending 31 July 2019
Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y flwyddyn yn diwedd
31 Gorffennaf 2019

	Unrestricted funds Cronfeydd anghyfyngedig	Restricted funds Cronfeydd cyfyngedig	TOTAL FUNDS CYFANSWM CRONFEYDD	TOTAL FUNDS CYFANSWM CRONFEYDD
	2019 £	2019 £	2019 £	2018 £
INCOME AND ENDOWMENTS FROM / INCWM A GWADDOLION O:				
Donations and legacies / Rhoddion a chymynroddion	105,141	-	105,141	113,250
Charitable activities / Gweithgareddau elusenol	183,875	30,000	213,875	192,161
Investments / Buddsoddiadau	1,495	-	1,495	99
Total Income and Endowments Cyfanswm Incwm a Gwaddolion	290,511	30,000	320,511	305,510
EXPENDITURE ON / GWARIANT AR:				
Charitable activities / Gweithgareddau elusenol	276,103	30,975	307,078	291,165
Total Expenditure Cyfanswm Gwariant	276,103	30,975	307,078	291,165
Net gains on investments / Enillion net ar fuddsoddiadau	2,248	-	2,248	-
Net Movements in Funds Symud net mewn cronfeydd	16,656	(975)	15,681	14,345
RECONCILIATION OF FUNDS / CYSONI CRONFEYDD				
Total funds brought forward / Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen	368,590	10,068	378,658	364,313
Total funds carried forward Cyfanswm cronfeydd i'w dwyn ymlaen	385,246	9,093	394,339	378,658

Balance Sheet as at 31 July 2019
Mantolen ar 31 Gorffennaf 2019

	£ 2019	£ 2018
FIXED ASSETS / ASEDAU SEFYDLOG		
Tangible assets / Asedau diriaethol	556	1,453
Intangible assets / Asedau anniriaethol	5,370	-
Investments / Buddsoddiadau	52,248	-
Total Fixed Assets / Cyfanswm Asedau Sefydlog	58,174	1,453
CURRENT ASSETS / ASEDAU CYFREDOL		
Debtors / Dyledwyr	63,230	37,909
Cash at bank and in hand / Arian yn y banc ac mewn llaw	293,621	369,984
Total Current Assets / Cyfanswm Asedau Cyfredol	356,851	407,893
LIABILITIES / RHWYMEDIGAETHAU		
Creditors: Amounts falling due within one year Credydwy: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	(20,686)	(30,688)
NET CURRENT ASSETS / ASEDAU CYFREDOL NET	336,165	377,205
NET ASSETS / ASEDAU NET	394,339	378,658
THE FUNDS OF THE CHARITY / CRONFEYDD YR ELUSEN:		
Restricted income funds / Cronfeydd incwm cyfyngedig	9,093	10,068
Unrestricted funds / Cronfeydd anghyfyngedig	385,246	368,590
TOTAL CHARITY FUNDS / CYFANSWM CRONFEYDD YR ELUSEN	394,339	378,658